# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 22 Hydref 2003 i'w hateb ar 5 Tachwedd 2003

**R Yn dangos bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W Yn dangos bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

***Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio***

**1. Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sydd wedi'u cyflwyno yn y Gogledd. (OAQ29245)

**2. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym sut y mae'n symud materion sy'n ymwneud â Chyfiawnder Cymdeithasol yn eu blaenau gyda'r person cyfatebol yn San Steffan. (OAQ29296)

**3. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal yn ddiweddar gyda swyddogion llywodraeth leol ynghylch gwella'r stoc dai. (OAQ29255)

**4. Leanne Wood (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch rhoi profion cyffuriau gorfodol mewn carchardai yng Nghymru. (OAQ29265)

**5. Val Lloyd (Dwyrain Abertawe);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae gwaith Cymorth - y gronfa sy'n rhoi cymorth i blant a phobl ifanc - wedi helpu i leihau anghydraddoldeb ymhlith plant Cymru. (OAQ29336) **Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**6. Denise Idris Jones (Conwy);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gefnogi Mentrau Diogelwch Cymunedol yn etholaeth Conwy. (OAQ29278)

**7. Irene James (Islwyn);** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i gryfhau'r cymunedau yn Islwyn. (OAQ29283)

**8. Leanne Wood (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymorth sydd ar gael i geisiwyr lloches anghenus. (OAQ29264)

**9. Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth sydd ar gael i drin pobl sy'n gaeth i gyffuriau yn Sir y Fflint. (OAQ29242)

**10. Jeff Cuthbert (Caerffili);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gefnogi Mentrau

Diogelwch Cymunedol yng Nghaerffili. (OAQ29298)

**11. Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy);** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddiogelu blaendaliadau rhent tenantiaid yn y sector preifat. (OAQ29243)

**12. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu'r cronfeydd cymunedol, y gellir eu defnyddio ar gyfer Teledu Cylch Cyfyng. (OAQ29304)

**13. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brosiectau Cymunedau yn Gyntaf yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. (OAQ29250)

**14. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafodaethau a gynhaliwyd ar ddatganoli'r cyfrifoldeb dros y Gwasanaeth Tân ac Achub i'r Cynulliad. (OAQ29234)

**15. Sandy Mewies (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar symleiddio'r broses o wneud cais am Grant Cymunedol. (OAQ29244)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**1. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol cynlluniau Technium yng Nghymru. (OAQ29328) **W TYNNWYD YN ÔL**

**2. Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y Ganolfan Hyfforddi Afioneg newydd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy. (OAQ29207)

**3. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau a fu rhwng y Gweinidog ac Awdurdod Datblygu Cymru ynghylch denu gwestywyr a darparwyr gwasanaethau allweddol eraill i'r ardal Amcan Un o amgylch Llanarthne. (OAQ29206) **TYNNWYD YN ÔL**

**4. Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pwysigrwydd cyllid Ffordd i Ffyniant. (OAQ29326) **W**

**5. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd y diwydiannau diwylliannol o fewn economi Cymru. (OAQ29294)

**6. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A yw'r Gweinidog wedi cynnal trafodaethau gyda'r Trysorlys ynghylch effaith gwerth y Bunt yn erbyn yr Ewro ar economi Cymru. (OAQ29273)

**7. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y Grant Cymorth Rhanbarthol Dewisol. (OAQ29321)

**8. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Sut mae cefnffyrdd yn cael eu gwella yng Nghymru.

(OAQ29320)

**9. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr astudiaethau y mae'n eu gwneud ar leihau traffig o amgylch Cymru. (OAQ29210)

**10. Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd);** Pa gymhellion sydd ar gael i annog busnesau i ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy. (OAQ29215)

**11. Denise Idris Jones (Conwy);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu gweithgarwch economaidd yn etholaeth Conwy. (OAQ29315)

**12. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod arian Amcan Un wedi cael ei ddefnyddio i gyllido Gardd Fotaneg Cymru yn Llanarthne. (OAQ29334) **W**

**13. Leanne Wood (Canol De Cymru);** Beth yw'r rhagolygon ar gyfer lleihau lefelau diweithdra yn y grwp oedran 25-34. (OAQ29309)

**14. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y ffyrdd osgoi sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Cymru yn ystod y deng mlynedd nesaf. (OAQ29209)

**15. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru. (OAQ29313)